Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw Cyflym i'r Rheoliadau Adeiladu: cwestiynau ac atebion



ISBN digidol 978-1-80391-020-8 © Hawlfraint y Goron 2021 WG41291

## Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn yn ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin a ofynnir am reoliadau adeiladu a gwaith adeiladu.

Mae canllawiau mwy cyffredinol ar y Rheoliadau Adeiladu, megis gweithdrefnau a mathau o wasanaeth rheoli adeiladu, yn y **'Canllaw Cyflym i'r Rheoliadau Adeiladu'**.

Os ydych yn gwneud unrhyw un o'r mathau o waith a amlinellir y llyfryn hwn, fe'ch cynghorir i gysylltu â Gwasanaeth Rheoli Adeiladu (a ddarperir gan eich awdurdod lleol neu arolygydd cymeradwy) cyn gwneud unrhyw waith i sicrhau bod eich cynnig yn bodloni'r gofynion. Gall unrhyw wyriad newid y sefyllfa o ran a oes angen caniatâd y dan y Rheoliadau Adeiladu neu beidio.

## A fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol i'r gwaith rwyf am ei wneud?

Mae'r atebion isod yn ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin am waith adeiladu, ac am osod, newid neu atgyweirio gwasanaethau, ffitiadau, draeniau a dyfeisiau cynhyrchu gwres. Maent wedi cael eu trefnu, cyn belled ag y bo modd, er mwyn ymdrin â'r canlynol:

- Cartrefi newydd (h.y. tŷ, byngalo, fflat deulawr, neu floc o fflatiau) ac estyniadau, ac unrhyw fath arall o adeilad newydd.
- Addasu, trosi a newid y ffordd mae cartrefi ac unrhyw fath arall o adeilad yn cael eu defnyddio.
- Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.
- Gwasanaethau a ffitiadau.
- Dyfeisiau llosgi tanwydd.

D.S. Mae'r adran hon yn ymdrin â'r Rheoliadau Adeiladu yn unig. Mae'n bosibl y bydd y gwaith sy'n gysylltiedig â'ch prosiect yn ddarostyngedig i ofynion statudol eraill megis caniatâd cynllunio, rheoliadau diogelwch tân o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005, rheoliadau dŵr, trwyddedu/cofrestru a Deddf Waliau Cydrannol etc. 1996.



Ni all yr enghreifftiau ymdrin â phob math o brosiect adeiladu, ond dylent eich helpu i benderfynu a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol neu beidio. Maent hefyd yn nodi:

i. y mathau hynny o 'Waith Adeiladu' lle nad oes angen ichi ddefnyddio Gwasanaeth Rheoli Adeiladu os ydych yn cyflogi gosodwr cofrestredig. Nodir gwaith o'r fath â seren (*) yn yr ateb. Mae'r consesiwn wedi'i gyfyngu'n llym i'r math penodol o osodiad a'r math o osodwr cofrestredig a ddisgrifir. Mae manylion cyswllt Cynlluniau Personau Cymwys yn Atodiad B: 'Ffynonellau gwybodaeth'.

ii. rhai mathau o waith adeiladu sy'n cael eu hesemptio rhag cael eu rheoli o dan y Rheoliadau Adeiladu.

Os oes gennych unrhyw amheuon am y pwyntiau hyn, a/neu oblygiadau iechyd neu ddiogelwch y gwaith yr ydych am ei wneud, dylech ymgynghori â Gwasanaeth Rheoli Adeiladu.

# Cwestiynau ac Atebion

a. Os byddaf am adeiladu cartref newydd o unrhyw fath (h.y. tŷ, byngalo, fflatiau deulawr neu floc o fflatiau) neu unrhyw fath arall o adeilad newydd, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – fel adeilad newydd bydd angen bodloni'r holl ofynion perthnasol yn y Rheoliadau yn llawn.

b. Os byddaf am adeiladu estyniad i fy nghartref, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – ond mae cyntedd neu ystafell wydr a adeiladir ar lefel y ddaear ac sydd ag arwynebedd llawr nad yw'n fwy na 30m$^2$ yn cael eu hesemptio,  ar yr amod bod y gwydr ac unrhyw osodiad trydanol sefydlog yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol yn y Rheoliadau Adeiladu (h.y. Rhan N 'Diogelwch gwydr mewn perthynas â tharo, agor a glanhau', a Rhan P 'Diogelwch trydanol'). Fodd bynnag, DIM OND os NAD OES system wresogi sefydlog wedi'i gosod ynddo neu os **NAD YW system wresogi sefydlog yr eiddo presennol yn cael ei hymestyn iddi, A'I BOD yn parhau i fod ar wahân yn thermol** i'r eiddo presennol (gweler Adran 9 o Ddogfen Gymeradwy L1B) y bydd cyntedd neu ystafell wydr yn cael eu hesemptio rhag gofynion Rhan L (arbed tanwydd a phŵer). Mae Atodiad A yn crynhoi'r esemptiadau yn y Rheoliadau Adeiladu. Gall eich Gwasanaeth Rheoli Adeiladu ddarparu rhagor o wybodaeth am wydr diogelwch, diogelwch trydanol a'r gwahanu thermol sydd ei angen.

Ni ddylech adeiladu ystafell wydr lle bydd yn cyfyngu mynediad ysgol i ffenestri ystafell yn y to, neu atig wedi'i droi yn lle byw, yn enwedig os bwriedir i unrhyw un o'r ffenestri fod yn ffordd o hwyluso dianc neu achub os oes tân.

c. Os byddaf am adeiladu estyniad garej i fy nghartref, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – ond mae estyniad porth ceir, sy'n agored ar ddwy ochr o leiaf ac sydd ag arwynebedd llawr nad yw'n fwy na 30m2, yn cael ei esemptio, ar yr amod bod unrhyw osodiad trydanol sefydlog yn cydymffurfio â gofynion diogelwch trydanol y Rheoliadau Adeiladu (Rhan P 'Diogelwch trydanol'). Dylech sicrhau nad yw porth ceir yn rhwystro ffliw lefel isel o ddyfais olew neu nwy (mae canllawiau ar leoliad ffliwiau yn Nogfen Gymeradwy J). Gweler Atodiad A sy'n crynhoi'r esemptiadau yn y Rheoliadau Adeiladu.

d. Os byddaf am adeiladu garej ar wahân sydd ag arwynebedd llawr nad yw'n fwy na 30m², a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**NA FYDDANT** – bydd yr adeilad yn cael ei esemptio o'r rheoliadau os nad yw ei arwynebedd llawr yn fwy na 30m²; nad oes ganddo fwy nag un llawr ac nad yw'n cynnwys unrhyw lety cysgu; ac ar yr amod ei fod naill ai'n cael ei adeiladu yn bennaf o ddeunyddiau nad ydynt yn hylosg, neu nad yw'n cael ei adeiladu o fewn un metr i ffin yr eiddo.

Fodd bynnag, bydd unrhyw gyflenwad trydanol o dŷ annedd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y garej yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Adeiladu (Rhan P 'Diogelwch trydanol').

(Gweler hefyd Atodiad A sy'n crynhoi'r esemptiadau.)

e. Os byddaf am godi tŷ gwydr neu adeilad bach ar wahân fel sied ardd neu dŷ haf yn fy ngardd, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**NA FYDDANT** – tbydd yr adeiladau hyn yn cael eu hesemptio o'r rheoliadau, ond dim ond ar yr amod bod yr adeilad yn cael ei gwmpasu'n llawn gan y diffiniadau a'r amodau a roddir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adeiladu (gweler Atodiad A sy'n crynhoi'r esemptiadau hyn).

Fodd bynnag, bydd unrhyw gyflenwad trydanol o dŷ annedd a ddefnyddir ar gyfer yr adeilad yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Adeiladu (Rhan P 'Diogelwch trydanol').

f(i) Os byddaf am droi atig yn lle byw yn fy nghartref, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – Bydd angen bodloni'r gofynion perthnasol yn y Rheoliadau er mwyn sicrhau, er enghraifft, fod cryfder strwythurol y llawr arfaethedig yn ddigonol; nad amherir ar sefydlogrwydd y strwythur (gan gynnwys y to); y gellir dianc rhag tân yn ddiogel; bod y grisiau i'r llawr newydd wedi'u cynllunio'n ddiogel; a bod insiwleiddio sain rhesymol rhwng yr ystafell newydd â'r ystafelloedd isod.



f(ii) Os byddaf am droi garej integredig neu garej sy'n rhan o dŷ annedd yn lle byw, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – Bydd angen bodloni'r gofynion perthnasol yn y Rheoliadau er mwyn sicrhau, er enghraifft, fod y llety presennol yn cael ei uwchraddio i'r safon sy'n ofynnol ar gyfer lle byw, gan gynnwys inswleiddio thermol a sŵn. Bydd angen i newidiadau strwythurol i greu agoriadau newydd ar gyfer ffenestri ac i flocio drws presennol y garej gydymffurfio â gofynion perthnasol Rhan A; ac os bydd pwysau'r adeilad yn cael ei gynyddu bydd angen hefyd ymchwilio i ddigonolrwydd y sylfeini presennol.

g. Os byddaf am wneud addasiadau mewnol yn fy nghartref, neu unrhyw fath arall o adeilad, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – yn debygol iawn. Mae'r rheoliadau'n nodi pa fathau o addasiadau sy'n cael eu hystyried yn 'addasiadau sylweddol' ac felly yn 'Waith Adeiladu', gan ystyried y potensial i'r gwaith arfaethedig gael effaith andwyol ar gydymffurfiaeth yr adeilad â gofynion penodol. Felly, mae'r rheoliadau'n debygol iawn o fod yn berthnasol os bydd eich prosiect yn cynnwys addasiadau i strwythur yr adeilad (e.e. tynnu wal sy'n cynnal pwysau, dist, trawst neu frest simnai – yn llwyr neu'n rhannol); yn effeithio ar ddihangfa dân neu ragofalon tân eraill naill ai y tu mewn neu'r tu allan i'r adeilad; neu'n effeithio ar fynediad i adeiladau a'u defnyddio. Gan dybio bod y rheoliadau'n berthnasol, rhaid i'r holl waith sy'n gysylltiedig â'r addasiadau gydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol.

h. Os byddaf am newid un ffenestr neu fwy yn fy nghartref, neu unrhyw fath arall o adeilad, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** –os ydych yn newid yr holl ffrâm osod a'r rhannau sy'n agor. Os yw'r gwaith yn cael ei wneud ar eich cartref, a'ch bod yn cyflogi gosodwr cofrestredig, ni fydd angen ichi ddefnyddio Gwasanaeth Rheoli Adeiladu*. Ond ar ôl cwblhau'r gwaith bydd rhaid i'r gosodwr roi tystysgrif i'ch awdurdod lleol sy'n datgan bod y gwaith yn cydymffurfio â Rhannau B ac L a rhannau perthnasol eraill o'r Rheoliadau Adeiladu. Rhoddir tystysgrif cydymffurfio ichi ar gyfer eich cofnodion. **D.S.** Wrth osod ffenestri newydd mewn ystafelloedd sy'n lle byw, ni ddylech leihau maint y rhannau o'r ffenestri y gellir eu hagor i fod yn llai nag agoriadau'r ffenestri pan gafodd yr adeilad ei godi, neu $0.33m^2$ p'un bynnag yw'r mwyaf.

**NA FYDDANT** – os nad yw'r gwaith yn cynnwys mwy nag, er enghraifft, newid gwydr wedi'i dorri neu unedau gwydr dwbl ag anwedd ynddynt, newid sashys (h.y. y darnau sy'n agor) sydd wedi pydru o fewn y brif ffrâm, neu newid rhannau o'r brif ffrâm sydd wedi pydru.

i. Os byddaf am wneud atgyweiriadau i fy nghartref, neu unrhyw fath arall o adeilad, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**NA FYDDANT** – os yw'r atgyweiriadau'n fach: e.e. newid arwynebedd bach o deils to â theils o'r un math a phwysau; trwsio'r ffelt ar do gwastad; ailbwyntio gwaith brics; neu osod estyll llawr newydd.

Gweler paragraff 4.2 (i)

**BYDDANT** – os yw'r gwaith atgyweirio yn fwy sylweddol: e.e. tynnu rhan sylweddol o wal a'i hailadeiladu; tanategu adeilad; neu osod ffliw neu leinin ffliw newydd. Yn achos aildoi: (i) os yw'r teils neu'r deunydd toi newydd yn sylweddol drymach neu ysgafnach na'r deunydd presennol – yna mae'n bosibl y bydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol; ond (ii) os yw'r to wedi'i doi â gwellt, neu i'w doi â gwellt lle nad oedd yn flaenorol – yna bydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol.

**BYDDANT** – Os yw'r gwaith yn golygu adnewyddu elfen thermol. Rhaid i waith ar elfennau thermol presennol gydymffurfio â rheoliad 23 – gofynion ar gyfer adnewyddu neu amnewid elfennau thermol.

Pan fydd elfen thermol yn destun gwaith adnewyddu, os yw'r arwynebedd sydd i'w adnewyddu yn fwy na 50% o wyneb yr elfen thermol unigol, neu'n cynnwys gwaith adnewyddu mawr lle mae mwy na 25% o arwynebedd amlen yr adeilad yn cael ei adnewyddu, dylid gwella perfformiad yr elfen thermol gyfan.

Defnyddir 'elfen thermol' yn y Rheoliadau Adeiladu i ddisgrifio wal, llawr neu do sy'n gwahanu gofod sy'n cael ei wresogi o'r amgylchedd allanol, y tir ac unrhyw rannau o'r adeilad nad ydynt yn cael eu gwresogi neu, os oes rhan arall o'r adeilad nad yw'n annedd, o ran o'r adeilad sy'n cael ei gwresogi i dymheredd gwahanol.

Mae gosod haen newydd yn golygu cladio neu rendro'r arwyneb allanol neu osod leinin sych ar yr arwyneb mewnol. Mae amnewid haen sy'n bodoli eisoes yn golygu naill ai stripio'r elfen yn ôl i'w chydrannau strwythurol sylfaenol (e.e. tynnu'r rendr er mwyn datguddio wyneb brics allanol wal a'i hailrendro) ac wedyn ei hailadeiladu; neu amnewid y croen gwrth-ddŵr ar do gwastad.

Wrth asesu cyfran yr arwynebedd sydd i'w hadnewyddu, dylid seilio'r cyfrifiadau ar yr elfen unigol sydd i'w hadnewyddu, yn hytrach na'r holl elfennau o'r math hwnnw yn yr adeilad. Er enghraifft, os ydych yn stripio to estyniad, arwynebedd yr elfen yw arwynebedd to'r estyniad, yn hytrach nag arwynebedd to'r holl adeilad.

### j. Os byddaf am droi fy nhŷ yn fflatiau, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – newid sylweddol yn y ffordd mae adeilad yn cael ei ddefnyddio' yw hwn yn ôl y Rheoliadau, ac maent yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i'r holl adeilad neu ran ohono gydymffurfio â nhw o ganlyniad i'r newid hwnnw (e.e. y rhai sy'n ymwneud â dianc a rhagofalon tân eraill, hylendid, inswleiddio rhag sŵn, arbed ynni, a llygryddion gan gynnwys radon). Felly, efallai y bydd angen uwchraddio'r holl adeilad neu ran ohono i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion penodedig.

### k(i). Os byddaf am droi fy nghartref yn swyddfa, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**NA FYDDANT** – nid yw'r Rheoliadau'n ystyried y newid penodol hwn o ran 'defnydd yn newid sylweddol'. Fodd bynnag, os yw eich prosiect arfaethedig yn cynnwys gwaith a fydd yn effeithio ar strwythur yr adeilad, y ffordd o ddianc a rhagofalon tân eraill, neu'n effeithio ar fynediad i adeiladau a'r defnydd ohonynt, bydd y Rheoliadau'n ystyried eich gwaith yn 'newid sylweddol' (ac felly yn 'Waith Adeiladu'), ac mae'n rhaid i'r gwaith felly gydymffurfio â'r Rheoliadau (gweler hefyd gwestiwn (g)).

k(ii). Os byddaf am droi fy nghartref yn siop, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – 'newid sylweddol yn y ffordd mae adeilad yn cael ei ddefnyddio' yw hwn yn ôl y Rheoliadau, ac maent yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i'r adeilad, neu'r rhan berthnasol o'r adeilad, gydymffurfio â nhw o ganlyniad i'r newid hwnnw yn y ffordd mae'r adeilad yn cael ei ddefnyddio. Mae'r gofynion penodol yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â dianc a rhagofalon tân eraill, hylendid, arbed ynni, a mynediad i adeiladau a'r defnydd ohonynt. Felly, efallai y bydd angen uwchraddio'r adeilad i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion penodedig.

l. Os byddaf am drosi rhan o fy siop, swyddfa neu unrhyw fath arall o adeilad annomestig, neu'r holl adeilad, yn fflat neu unrhyw fath arall o gartref, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – newid sylweddol yn y ffordd mae adeilad yn cael ei ddefnyddio yw hwn yn ôl y Rheoliadau, ac maent yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid i'r holl adeilad neu ran ohono gydymffurfio â nhw o ganlyniad i'r newid hwnnw (e.e. y rhai sy'n ymwneud â dianc a rhagofalon tân eraill, hylendid, inswleiddio rhag sŵn, arbed ynni). Felly, efallai y bydd angen uwchraddio'r holl adeilad neu ran ohono i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion penodedig.

m. Os byddaf am osod, addasu neu amnewid ffrynt fy siop, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – oherwydd yr effaith debygol ar strwythur, dianc a rhagofalon tân eraill, a mynediad i adeiladau a'r defnydd ohonynt, mae'r math hwn o brosiect yn debygol o gael ei ystyried yn 'newid sylweddol' (gweler hefyd gwestiwn (g)), ac felly mae yn 'Waith Adeiladu'. Bydd angen bodloni'r gofynion perthnasol er mwyn sicrhau, er enghraifft, fod y materion hyn yn derbyn sylw, ynghyd ag eraill fel diogelwch gwydr. Fodd bynnag, nid oes rhaid i rai ffenestri arddangos siopau gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer effeithlonrwydd ynni.

n. Os byddaf am adeiladu neu addasu wal gardd neu wal ffin, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**NA FYDDANT** – ond dylech, wrth gwrs, sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud mewn modd diogel i osgoi damweiniau (gweler paragraff 3.8). Mae taflen ar gael yn rhad ac am ddim ar adeiladu waliau sy'n sefyll yn annibynnol a chyngor ar strwythur mewn perthynas â waliau sy'n bodoli eisoes (gweler Atodiad B: 'Ffynonellau gwybodaeth').



o. Os byddaf am fewnosod inswleiddio mewn wal geudod, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn gymwys?

**BYDDANT** – mae rheoliadau'n nodi'n benodol mai 'Gwaith Adeiladu' yw hwn. Bydd angen bodloni'r gofynion perthnasol er mwyn sicrhau bod y deunydd inswleiddio'n addas ar gyfer adeiladwaith y wal ac, yn achos rhai deunyddiau inswleiddio sbwng, fod y risg o nwy fformaldehyd cael ei ryddhau'n cael ei hasesu. Mae'r gwaith hwn fel arfer yn cael ei wneud gan osodwr cofrestredig. Gweler hefyd gwestiwn (i) uchod mewn perthynas ag elfennau thermol.

p. Os byddaf am danategu holl sylfeini fy adeilad neu ran ohonynt, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – mae'r rheoliadau'n nodi'n benodol mai 'Gwaith Adeiladu' yw hwn. Bydd angen bodloni'r gofynion perthnasol er mwyn sicrhau y bydd y gwaith tanategu'n atal yr adeilad rhag symud. Bydd angen rhoi sylw penodol i'r effaith ar unrhyw garthffosydd a draeniau sy'n agos at y gwaith (gweler paragraff 3.3).

q. Os byddaf am osod neu amnewid gwifrau trydan, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – Mae Rhan P yn berthnasol i osodiadau trydanol mewn adeiladau neu rannau o adeiladau sy'n cynnwys:

- tai annedd neu fflatiau;
- tai annedd ac adeiladau busnes sy'n rhannu cyflenwad – er enghraifft siopau a thafarndai sydd â fflat uwch eu pen;
- ardaloedd mynediad cyffredin mewn blociau o fflatiau fel coridorau a grisiau;
- amwynderau a rennir mewn blociau o fflatiau fel golchdai a champfeydd.

Mae Rhan P hefyd yn berthnasol i rannau o'r gosodiadau trydanol uchod:

- mewn neu ar dir sy'n gysylltiedig â'r adeiladau – er enghraifft mae Rhan P yn berthnasol i oleuadau sefydlog a phympiau pwll mewn gerddi;
- mewn tai allan fel siediau, garejys ar wahân a thai gwydr.

Dylai gwaith trydanol sy'n cynnwys gwifrau gosod ac offer sefydlog fodloni'r safonau derbyniol o ran diogelwch, pwy bynnag sy'n ei wneud. Gellir sicrhau hyn drwy ddilyn yr argymhellion ar gyfer dylunio, gosod, archwilio, profi ac ardystio yn BS 7671 'Gofynion ar gyfer Gosodiadau Trydanol – Rheoliadau Gwifrau IEE' (gweler Atodiad B: 'Ffynonellau gwybodaeth') Mae'r gwaith hwn fel arfer yn cael ei wneud gan osodwr cofrestredig.

Dim ond ar gyfer 'gwaith hysbysadwy' y mae angen ichi ddefnyddio Gwasanaeth Rheoli Adeiladu*, ond os ydych yn cyflogi gosodwr cofrestredig sydd â'r cymwyseddau perthnasol i gyflawni'r gwaith, ni fydd angen defnyddio un (gweler Atodiad B ar gyfer cynlluniau gosodwyr cofrestredig). Esbonnir gwaith hysbysadwy yn Nogfen Gymeradwy P, adran 0, ac maent yn cynnwys cylchedau newydd sy'n mynd yn ôl i'r uned defnyddiwr ac ychwanegiadau neu addasiadau i gylchedau presennol mewn ceginau, ystafelloedd ymolchi ac yn yr awyr agored. Mae'r gwaith nad yw'n hysbysadwy yn cynnwys atgyweirio, adnewyddu a chynnal a chadw; ac ychwanegiadau neu addasiadau i gylchedau presennol y tu allan i geginau ac ystafelloedd ymolchi. Os nad ydych yn siŵr a yw'r gwaith yn hysbysadwy, dylech wirio gyda'ch Gwasanaeth Rheoli Adeiladu neu osodwr cofrestredig.

Os ydych yn defnyddio gosodwr cofrestredig ar gyfer gwaith hysbysadwy, bydd gweithredwr y cynllun cofrestru yn anfon tystysgrif cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu atoch pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau. Os ydych yn defnyddio gosodwr cymwysedig nad yw wedi'i gofrestru ar gyfer gwaith hysbysadwy, neu'n gwneud y gwaith eich hun, bydd y Gwasanaeth Rheoli Adeiladu yn archwilio'r gwaith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu cyn rhoi tystysgrif gwblhau. Dylai gosodwr cymwysedig, p'un a yw wedi'i gofrestru neu beidio, roi tystysgrif diogelwch trydanol BS 7671 wedi'i llofnodi ichi ar gyfer pob math o waith trydanol. Gall gweithredwyr y cynllun gosodwr cofrestredig eich cynghori a yw gosodwr wedi'i gofrestru ar gyfer y gwaith yr hoffech iddo ei wneud, neu efallai y gallwch wirio'r wybodaeth honno ar eu gwefan (gweler Atodiad B: 'Ffynonellau gwybodaeth').

Yn ogystal, dylech nodi bod eich contract gyda'r cwmni dosbarthu trydan yn cynnwys amodau diogelwch na ddylid eu torri. Yn benodol, ni ddylech ymyrryd ag offer y cwmni dosbarthu sy'n cynnwys y ceblau i'ch uned defnyddiwr neu'r ceblau hyd at a chan gynnwys y prif switsh ynysu os oes un.

* Gweler paragraff 4.2(i)

r. Os byddaf am osod ffitiadau fel toiled, cawod, basn ymolchi, neu sinc cegin yn fy nghartref, neu mewn unrhyw fath arall o adeilad, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – os bydd gosod y ffitiad neu ffitiadau'n golygu newid pibell ddraenio fertigol neu ddraen tanddaearol, neu gysylltiadau newydd ag un o'r rhain. Dylech hefyd holi eich Gwasanaeth Rheoli Adeiladu i gael gwybod faint o wybodaeth sydd ei hangen am y ffitiadau rydych yn bwriadu eu defnyddio.

**NA FYDDANT** – ar yr amod nad yw'r gwaith ond yn cynnwys gosod ffitiad neu ffitiadau ychwanegol yn yr un lleoliad neu leoliad newydd nad yw'n cynnwys estyniadau i'r pibwaith draenio.

s. Os wyf am osod neu amnewid silindr dŵr poeth, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn gymwys?

**BYDDANT** – os ydych yn gosod neu'n amnewid silindr dŵr poeth o fewn system storio dŵr poeth heb fentiau (h.y. system a gyflenwir yn uniongyrchol o'r prif gyflenwad dŵr, heb bibell benagored i ryddhau gwasgedd a chyda chapasiti storio sy'n fwy na 15 litr). Mae'n ofynnol i ddŵr poeth gael ei storio'n ddiogel o dan bwysau ac i'r gosodiad fod yn effeithlon o ran ynni. Dim ond person sy'n gymwys i wneud hynny a ddylai osod y silindr.

**BYDDANT** – os ydych yn gosod neu'n amnewid silindr dŵr poeth o fewn system storio dŵr poeth sydd â fentiau (h.y. system sy'n cael ei bwydo o bibell benagored er mwyn rhyddhau gwasgedd). Mae'n ofynnol i'r gosodiad fod yn effeithlon o ran ynni.

Ar gyfer y naill fath o system neu'r llall, dylai eich gosodwr gwblhau a rhoi cofnod o'r gwaith gosod ichi ynghyd â thystysgrif gomisiynu. Mae rhai gweithgynhyrchwyr yn atodi tystysgrifau i silindrau yn barod i osodwyr eu cwblhau.

t. Os byddaf am osod draeniau newydd a/neu osod tanc septig o fewn ffin fy eiddo, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

**BYDDANT** – byddant yn berthnasol i ddraeniau dŵr glaw neu ddraeniau dŵr budr newydd y tu mewn i'r adeilad yn ogystal â'r tu allan. Mae'r Rheoliadau Adeiladu hefyd yn berthnasol i'r holl drefniadau ar gyfer carthffosiaeth nad ydynt yn rhan o'r brif system (h.y. y rhai sy'n

defnyddio tanciau septig), gan gynnwys eu gollyngfeydd a chaeau draenio. (Gweler hefyd baragraff 3.3 sy'n cyfeirio at waith adeiladu arfaethedig dros neu'n agos at ddraeniau). I gael rhagor o arweiniad ar adeiladu dros neu'n agos at ddraen, neu adeiladu (gosod) draen newydd, dylech ymgynghori â'ch ymgymerwr carthffosiaeth lleol (y cwmni sy'n cyflenwi eich dŵr).

Ac eithrio mewn argyfwng, dylid rhoi o leiaf 24 awr o rybudd i'ch awdurdod lleol am unrhyw fwriad i atgyweirio unrhyw ddraen tanddaearol (adran 61 o Ddeddf Adeiladu 1984).

u. Os byddaf am osod, amnewid neu newid lleoliad unrhyw fath o ddyfais llosgi tanwydd (gan gynnwys boeler nwy ac iddo ffliw), a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn gymwys?

**Pob dyfais nwy:**


**BYDDANT** bydd y Rheoliadau Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) hefyd yn berthnasol, a bydd angen ichi gyflogi gosodwr ar gofrestr Gas Safe sydd â'r cymwyseddau perthnasol i wneud y gwaith.

**Dyfeisiau tanwydd solet:**

**BYDDANT** – ond os nad oes mwy na thri llawr i'r adeilad a'ch bod yn cyflogi gosodwr sydd wedi'i gofrestru gyda HETAS (Cynllun Profi a Chymeradwyo Offer Gwresogi) i wneud y gwaith, ni fydd angen ichi ddefnyddio Gwasanaeth Rheoli Adeiladu*.

**Dyfeisiau olew:**

**BYDDANT** – ond os nad oes mwy na thri llawr i'r adeilad a'ch bod yn cyflogi gosodwr sydd wedi'i gofrestru gydag OFTEC (Cymdeithas Dechnegol Tanio Olew i'r Diwydiant Petrolewm) i wneud y gwaith, ni fydd angen ichi ddefnyddio Gwasanaeth Rheoli Adeiladu*.



* Gweler paragraff 4.2 (i)

Fel arfer, ond rhai cyfyngiadau penodol (e.e. mewn perthynas ag allbwn y ddyfais ac uchder yr adeilad), caiff y gosodwyr cofrestredig uchod hefyd wneud gwaith adeiladu cysylltiedig sydd ei angen i sicrhau bod y ddyfais yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu, heb ddefnyddio Gwasanaeth Rheoli Adeiladu*. Gall hyn gynnwys gwaith ar aelwyd, lle tân neu ffliw.

Dylai'r sawl sy'n gosod y ddyfais llosgi tanwydd roi gwybodaeth ichi am derfynau perfformiad diogel y gosodiad ac, mewn achosion lle bwriedir i'r aelwyd, y lle tân, y ffliw a'r simnai fod yn nodweddion parhaol yn yr adeilad y gall fod angen eu newid yn y dyfodol, dylent hefyd osod plât rhybuddio mewn man lle bydd yn hawdd ei weld – e.e. ar bwys y stopfalf ar gyfer y prif gyflenwad dŵr neu ar bwys yr uned defnyddiwr ar gyfer trydan. Mae hyn er mwyn i rywun sy'n dod i ailddefnyddio'r nodweddion hyn yn y dyfodol wybod beth yw eu terfynau perfformiad, er enghraifft os ydynt yn newid yr ddyfais. Fodd bynnag, nid oes angen platiau rhybuddio lle mae dyfeisiau ffliw cytbwys wedi'u selio o'r ystafell wedi cael

eu gosod, gan fod eu ffliw all-lif a'u pibellau mewnlif wedi cael eu dylunio yn enwedig ar gyfer terfynau'r ddyfais yn hytrach nag i'w defnyddio'n ehangach.

Os dych yn cael boeler wedi'i osod, dylai'r gosodwr gwblhau a rhoi cofnod gosod ichi – ynghyd â thystysgrif gomisiynu a Llawlyfr Cyfarwyddiadau i Ddefnyddwyr.

v. Os byddaf am osod dyfais nwy sefydlog, heb ffliw, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn berthnasol?

* Gweler paragraff 4.2 (i)

**BYDDANT** – ond bydd angen ichi gyflogi cyflogwr sydd wedi'i gofrestru gyda Gas Safe sydd â'r cymwyseddau perthnasol i wneud y gwaith.

Rhaid sicrhau bod awyru digonol ar waith i waredu o'r tŷ anwedd dŵr, a sylweddau eraill sy'n cael eu cynhyrchu gan y broses o losgi tanwydd a all gael effaith ar iechyd. Er mwyn sicrhau hyn dylai'r gosodwr ddilyn cyfarwyddiadau gwneuthurwr y ddyfais, a chymryd camau eraill fel dilyn y canllawiau ar 'Osod cyfarpar neu gymryd camau eraill megis dilyn y canllawiau yn 'Installation and Maintenance of Flues and Ventilation for Gas Appliances (etc.)' (BS 5440) (gweler Atodiad B: 'Ffynonellau gwybodaeth').

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn darparu dwy daflen am ddim ar y peryglon a achosir gan ddyfeisiau hylosgi domestig a sut y gellir rheoli'r rhain yn 'Gas appliances. 'Get them checked – Keep them safe' a 'Landlords – A guide to landlord's duties' (gweler Atodiad B: 'Ffynonellau gwybodaeth').

w. Os byddaf am newid mewn unrhyw ffordd adeiladwaith lleoedd tân, aelwydydd neu ffliwiau, neu eu hatgyweirio mewn unrhyw ffordd a allai effeithio ar y ffordd maent yn gweithio'n diogel ac yn dal gwres, a fydd y Rheoliadau Adeiladu'n berthnasol?

**BYDDANT** – os yw'r gwaith yn cynnwys amnewid neu osod o'r newydd ffliw neu leinin ffliw, aelwyd, lle tân neu simnai. Ond gweler hefyd gwestiwn (u) uchod ynghylch gwaith adeiladu sy'n rhan angenrheidiol o osod dyfais llosgi tanwydd newydd. Mae'n hanfodol bod ffliwiau'n gweithredu'n effeithlon, ac y dylid lleihau'r risg o'r adeilad yn mynd ar dân neu o bobl yn cael eu llosgi cymaint ag y bo modd. Dylai'r math hwn o waith bob amser ystyried y canllawiau yn Nogfen Gymeradwy J ('Dyfeisiau cynhyrchu gwres a systemau storio tanwydd'.

Gweler paragraff 4.2 (i)

x. Os byddaf am osod neu amnewid tanc olew neu nwy petrolewm hylifol (LPG) (a/neu'r pibellau cysylltu) y tu allan i fy nghartref, a fydd y Rheoliadau Adeiladu yn gymwys?

**BYDDANT** – os yw'r gosodiad uwchben y ddaear, bydd angen bodloni'r gofynion er mwyn diogelu'r tanc yn ddigonol rhag unrhyw dân o'i amgylch ac, yn achos tanc olew, dal gollyngiadau olew fel nad yw dŵr daear yn cael ei halogi. Pan gynigir gosod pibellau cysylltu olew newydd, bydd angen falf dân ar y pwynt lle mae'r bibell yn mynd i mewn i'r adeilad. Os ydych yn gosod tanc olew a/neu'r pibellau cysylltu a'ch bod yn cyflogi gosodwr sydd wedi'i gofrestru gydag OFTEC (Cymdeithas Dechnegol Tanio Olew i'r Diwydiant Petrolewm), ni fydd angen ichi ddefnyddio Gwasanaeth Rheoli Adeiladu*.

Gweler paragraff 4.2 (i)